

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR BRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2017/18

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhwysir ym Mharagraff 3(2), Atodlen 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig

Rhoddwyd gwybod i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am braesept arfaethedig Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2017/18 ar 17 Ionawr 2017, yn unol â Pharagraff 2, Atodlen 5 y Ddeddf.

Ystyriodd y Panel adroddiad y Comisiynydd yn amlinellu'r praesept a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ddydd Mawrth, 31 Ionawr 2017.

Adolygodd Aelodau'r Panel y cynnydd arfaethedig i'r praesept i £71,489,111 (cynnydd o 4.64% o braesept 2016/17) a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 3.79% (cyfwerth â £249.21 y flwyddyn, cynnydd o £9.09 y flwyddyn neu 17c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D).

Derbyniodd y Panel gyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid hefyd, a oedd yn amlygu:

- Cyllid Adnoddau'r Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr
- Dyraniadau Canolog (cyfran uchaf)
- Newidiadau i'r tybiaethau ers y Cynllun Ariannol Tymor Canolig blaenorol
- Cyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18
- Risgiau

Wrth graffu'r praesept arfaethedig, cododd Panel yr Heddlu a Throsedd nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r cynigion twf ac effaith arbedion ar adrannau. Cododd Panel yr Heddlu a Throsedd hefyd bryderon ynglŷn â'r effaith y byddai'r Ardoll Prentisiaeth yn ei gael ar blismona yng Nghymru, a chytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet (Carl Sargeant AC) i fynegi pryder a chefnogi awgrym y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y dylid cyfeirio cyllid at y Coleg Plismona.

Gofynnwyd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd gynnwys Panel yr Heddlu a Throsedd yn gynharach fel y gallai Aelodau'r Panel ddeall goblygiadau'r setliad yn llawn ar y gyllideb plismona, a'r effaith ar y praesept a threth y cyngor.

Argymhellion:

- (a) **Bod y praesept yn cael ei gynyddu i £71,489,111 ar gyfer 2017/18.**
- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 3.79% - mae hyn yn gyfwerth â £249.21 y flwyddyn, cynnydd o £9.09 y flwyddyn, neu 17c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.**
 - **Mae hyn yn gynydd yn y praesept o 4.64% o 2016/17, sydd gyfystyr â chynnydd o £3,167,090.**
- (b) **Bod y Panel yn nodi bod toriadau o £2.686m wedi'u canfod ar gyfer 2017/18.**
- (c) **Bod y Panel yn nodi y bydd £1.277m o'r toriadau'n cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.**
- (d) **Bod y Panel yn nodi y bydd £1.001m pellach yn cael ei ail-fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen o'r cynnydd gwreiddiol yn y praesept.**
- (e) **Bod y Panel yn nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:**
- **Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu o 3.79% yn 2017/18 a 2.5% yn 2018/19 i 2021/22.**
 - **Y bydd grantiau plismona'n gostwng o 1.4% yn 2017/18 a 1% bob blwyddyn o 2018/19.**
 - **Y bydd ffioedd mewn perthynas â'r Ardoll Prentisiaeth o 2017/18 yn ychwanegu cost o £0.431m, sydd gyfystyr â thoriad pellach o 0.59% mewn grant.**